# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llandegfan

## Ysgol Gynradd Llandegfan
## Llandegfan
## LL59 5UW

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llandegfan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llandegfan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sophie Parry |
| Person â gofal | Joanne Anderson |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 28 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 9 tan 1 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi a cyn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolwg cyntaf y gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 05/05/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/05/2023 |
| Mae llawer o blant yn siarad Saesneg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatrys problemau yn annibynnol

A2 Cryfhau partneriaethau sy'n galluogi'r plant i ddysgu am eu hardal leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, maent yn symud o amgylch yr ystafell yn hyderus o un weithgaredd i'r llall ac yn helpu eu hunain i adnoddau sydd ar gael iddynt yn ogystal â'r rhai sydd mewn bocsys a'r droriau. Mae'r plant yn gwybod caiff eu teimladau eu hystyried. Er enghraifft, pan maent yn teimlo'n drist cânt eu cysuro gan ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu. Maent yn hapus ac yn mynd ati i chwarae yn syth, yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos iawn gyda'r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed gyda threfniadau'r lleoliad. Mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau cymdeithasu priodol. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn arllwys diod i'w hunain ac yn gofyn os gallant arllwys diod i'w ffrindiau, ac yn ymateb gyda plîs a diolch wrth dderbyn a phasio llwy i'w gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu yn fawr iawn. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth chwarae gyda'r ceir electronig, gan chwerthin wrth eu gweld yn gwibio ar draws yr ystafell. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio'r offer i arllwys a llenwi dŵr i fewn i silindrau mesur ac yn datblygu eu sgiliau corfforol wrth ddringo teiars a bocsys pren a reidio beics.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol arbennig o dda, er enghraifft, wrth wisgo a thynnu esgidiau glaw a chotiau. Gallant helpu eu hunain i blât a gwydr amser byrbryd ac arllwys diod eu hunain. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau gan ddewis sut i dreulio eu hamser. Maent yn mwynhau mynd at wahanol adnoddau, y tu fewn a thu allan i'r adeilad ac yn dyfalbarhau'n briodol gyda'r gweithgareddau, gan ymgolli yn eu chwarae am gyfnodau hir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso ystod eang o fedrau yn effeithiol, sy'n arwain yn llwyddiannus at wella eu deilliannau a'u medrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, trwy ddilyn anogaeth ac arweiniad yr ymarferwyr. Yn ogystal, maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd a'u cyd-ganu yn ystod eu sesiynau cylch ac wrth olchi eu dwylo. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus ac yn gweithredu arnynt yn gydwybodol, er enghraifft, wrth lenwi bwcedi â thywod i greu cestyll o'r un maint. Maent yn siarad yn naturiol â'i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig. Maent yn ymateb i drafodaethau ac yn rhannu syniadau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio i falu basil a phersli a'u cymysgu â dŵr wrth y gegin fwd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trafod llyfrau'n ddeallus. Maent yn ymgysylltu â storïau yn frwd ac yn ymateb yn ffraeth i'w cyfoedion wrth fwynhau lluniau a digwyddiadau stori. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio cymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar, er enghraifft, wrth ymateb yn ddeallus i helyntion deinosoriaid sy'n dawnsio.

Yn ystod eu chwarae, mae'r rhan fwyaf yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc, paent a chreonau. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cadw nodiadau'n ystyrlon mewn llyfrynnau, ar ôl ateb y ffôn yn yr ardal chwarae rôl ac wrth gynllunio sut i gydbwyso siapiau i greu tŵr. Maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu cofnodion yn eiddgar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd cadarn ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth ddidoli riliau, cerrig mân a phetalau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o briodweddau siapiau. Yn ogystal, maent yn trafod a chymharu cyfeintiau silindrau, bwcedi a jygiau yn ddeallus wrth lifo dŵr o un blwch i'r llall.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau ar y buarth, cydbwyso a dringo ar gyfarpar anturus. Maent yn mwynhau cydweithio i addasu eu syniadau, er enghraifft, wrth newid ongl ramp i arafu a chyflymu rhediad ceir o'r garej. Mae'r agweddau cadarnhaol hyn yn effeithio'n dda ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau digidol effeithiol. Maent yn manteisio ar y cyfleoedd pwrpasol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft,maent yn rheoli cyfeiriad ceir electronig, yn cyfathrebu trwy ddefnyddio teclynnau siarad ac yn dilyn rhaglenni iaith a rhifedd ar lechi electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda a chymhwyso eu medrau digidol yn fwriadus.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n barhaus ar gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un ohonynt. O ganlyniad, maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant ac yn darparu arweiniad a chymorth gofalgar. Maent yn casglu amrediad defnyddiol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr am arferion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd ac yn eu cefnogi i feithrin eu hunan hyder. Mae'r ymarferwyr yn ymfalchïo yng nghynnydd y plant ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu'r gofal gorau er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu.

Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau'r plant, gan ymateb yn ofalus i'w hanghenion. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol a charedig â'r plant ac maent yn dangos urddas a pharch tuag atynt yn gyson. Er enghraifft, maent yn ystyrlon a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion personol y plant, ac yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol.

Hyrwydda'r ymarferwyr iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr agwedd gadarnhaol a brwdfrydig sy'n sbarduno dysgu'r plant yn fwriadus. Mae'r dulliau addysgu pwrpasol yn annog y plant i gydweithredu'n llwyddiannus a datblygu ystod eang o fedrau yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n cael effaith dda ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant. Maent yn galluogi’r plant i fentro a datblygu medrau gwybyddol defnyddiol. Er enghraifft, maent yn cefnogi’r plant i adeiladu tyrau gyda siapiau tri-dimensiwn ac maent yn eu herio i gymysgu lliwiau yn gelfydd wrth baentio.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn gyson yn ystod gweithgareddau ac maent yn cymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r plant ar sut i lwyddo yn ystod eu tasgau. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn trafody ffordd orau i reoli ceir electronig ar lawr yr ystafell a’r ffordd orau i drefnu adnoddau i adlewyrchu cylchred bywyd broga. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar gael i blant ddatrys problemau yn gwbl annibynnol, heb oruchwyliaeth oedolyn.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n cynnwys cydweithio synhwyrol ymysg ei gilydd a pharodrwydd i ddilyn diddordebau ac awgrymiadau’r plant. Maent yn cyd-gynllunio’n effeithiol i ymestyn dysgu’r plant trwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol, fel creu cacen gyda thoes, mintys a cherrig mân lliwgar. Maent yn arsylwi ar blant ac yn trafod eu cynnydd yn drwyadl er mwyn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol o gyflawniadau’r plant i’w rhieni a’u gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol, trwy drafodaethau llafar ac mewn llyfrynnau cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol y plant. Maent yn ymestyn dealltwriaeth y plant yn ystod y sesiynau trwy eu holi’n fedrus a’u cymell i esbonio eu gweithredoedd yn ofalus. Gwneir hyn wrth iddynt baratoi llysiau yn yr ardal gartref, recordio cynnyrch eu gwaith ar lechi electronig ac wrth iddynt ludo petalau ar bapur i gyfatebu â rhifau penodol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i droedio ar draws llwybrau cul a dringo’n ofalus ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol diddorol, fel creu rhythmau gwahanol gyda drwm a maraca a chwarae rôl wrth ffonio’u teuluoedd â negeseuon dychmygol.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n effeithlon trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, hanes Santes Dwynwen ac astudio nodweddion mynyddoedd yr ardal. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd a darllen storïau diddorol am blant o gefndiroedd gwahanol yng Nghymru a ledled y byd.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae’r plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sy’n ddiogel ac yn lân. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw risgiau sy’n cael eu hadnabod er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Er enghraifft, maent yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar yn yr ardal allanol yn cyfateb i ofynion diogelwch perthnasol.

Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a’r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae’r safle yn ddiogel ac ni all ymwelwyr fynd at unrhyw

ran o’r lleoliad oni bai fod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Yn ogystal, mae'r ffens allanol yn rhwystro unrhyw blentyn rhag gadael y safle heb ganiatâd ac mae drysau allanol yr adeilad dan glo.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chyfeillgar. Mae cynllun yr amgylchedd a'r adnoddau yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r ystafell i ddarparu ardaloedd chwarae a dysgu symbylus i’r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i’r plant ddefnyddio'r cyfarpar a'r adnoddau yn annibynnol, fel yn yr ardal chwarae rôl a’r ardal i greu marciau a chwarae'n greadigol.

Ceir amrywiaeth ddifyr o adnoddau sydd o fewn cyrraedd y plant ymhob ardal, gan gynnwys adnoddau sy’n hybu eu ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft, mae doliau ac offerynnau cerddorol o wahanol ddiwylliannau ar gael. Yn ogystal, darperir nifer fawr o adnoddau naturiol fel boncyffion coed, reis, cregyn, cerrig mân lliwgar a moch coed sy’n hybu creadigrwydd y plant yn llwyddiannus.

Mae’r amgylchedd allanol yn cynnig gofod helaeth â chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ailddefnyddio adnoddau i greu ardaloedd dysgu rhagorol, sy’n cynnig cyfleoedd anturus. Mae’r ardal ddringo wedi ei chreu o baled pren ac mae’r gegin fwd yn

cynnwys llestri a chyfleoedd i'r plant ddefnyddio bwyd go iawn fel perlysiau ffres sydd yn cael eu tyfu’n yr ardd. Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i’r plant farcio ymhob ardal chwarae tu fewn a thu allan, ar bapur, neu wrth ddefnyddio sialc a creonau. Mae’r plant wrth eu boddau’n defnyddio'r adnoddau ac mae’r rhan fwyaf yn dewis treulio eu hamser tu allan yn gynhyrchiol. Mae’r drysau’n agored drwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn ôl eu dymuniad. Mae’r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy’n galluogi’r plant i wneud dewisiadau chwarae annibynnol, doeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae strategaethau arwain y lleoliad yn effeithiol ac mae’r arweinwyr yn canolbwyntio’n drylwyr ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae eu gweledigaeth gadarn yn hyrwyddo cydweithio llwyddiannus ymysg yr ymarferwyr. Mae’r holl ymarferwyr yn cymell y plant i ymdrechu’n dda yn ystod eu gweithgareddau ac yn rhoi anogaeth a chymhelliant deallus. Mae hyn yn arwain at addysgu llwyddiannus a gofal bugeiliol tyner.

Mae'r arweinwyr yn cefnogi’r ymarferwyr yn fwriadus i gynnal safonau trwy osod disgwyliadau uchel ar gyfer eu gwaith a’u hymddygiad. Mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn ddibynadwy ac maent yn gwerthuso gwaith y lleoliad yn gywrain. Mae’r arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr sy’n eu galluogi i adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant. Maent yn gwerthuso cynnydd yn fwriadus, er enghraifft, wrth graffu ar y profiadau digidol sydd ar gael i’r plant. O ganlyniad i’r gweithdrefnau trylwyr hyn, mae gan arweinwyr afael gadarn ar sut i ddatblygu’r ddarpariaeth yn barhaus.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr cymwys yn gweithio’n glòs fel tîm. Mae’r arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i fynychu hyfforddiant defnyddiol i wella’u hymarfer. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn gwrando’n graff ar awgrymiadau’r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr arweinwyr drefniadau trylwyr i werthuso perfformiad ymarferwyr ac maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn fanwl a rheolaidd.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ystyried adborth yr  holl ran ddeiliaid sy’n rhan o fywyd a gwaith y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau defnyddiol ac yn ystyried awgrymiadau’r rhanddeiliaid yn llawn wrth ddatblygu’r ddarpariaeth a gwella profiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio ac asesu, er mwyn dilyn diddordebau a syniadau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth gyfredol am brofiadau a chynnydd y plant i'w rhieni a'u gofalwyr yn wythnosol.

Mae’r berthynas lewyrchus gyda’r ysgol yn paratoi’r plant ar gyfer y cam nesaf yn fwriadus ac maent yn rhannu’r adeilad a’r adnoddau yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn dechrau ffurfio partneriaethau lleol i godi gwell ymwybyddiaeth ymysg y plant o’u cynefin. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am eu milltir sgwâr wedi eu sefydlu’n gadarn.

Mae’r defnydd o’r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n ddoeth ac yn cyllido cyfarpar defnyddiol, yn unol â thargedau’r lleoliad. Mae’r cynllunio gofalus yn gwella profiadau dysgu a chwarae’r plant yn ystyrlon trwy ddarparu adnoddau gwerthfawr fel cegin fwd, cyfarpar anturus ac ardaloedd plannu.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/07/2023